YR ATODLEN

## Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau

## Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 1985

*Ceisiadau sy'n ymwneud â gwaith ar fangreoedd anaddas*

**49.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 318(1)(**1**) o Ddeddf 1985 (cais gan berson sydd â buddiant mewn mangre am awdurdodiad gan dribiwnlys i gyflawni gwaith ar fangre anaddas, neu waith ar gyfer gwella).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) manylion o'r gwaith y mae'r ceisydd yn bwriadu eu cyflawni, gan gynnwys—

(i) enwau a chyfeiriadau contractwyr arfaethedig pan fo'n berthnasol;

(ii) amcangyfrif o gostau'r gwaith; a

(iii) amserlen ar gyfer cychwyn a chwblhau'r gwaith;

(b) pan wneir y cais ar y sail a grybwyllir yn adran 318(1)(b) o Ddeddf 1985, manylion o'r canlynol—

(i) y cynllun gwella neu ailadeiladu y mae'r ceisydd yn dymuno'i gyflawni; a

(ii) y gymeradwyaeth o'r cynllun gan yr ATLl;

(c) datganiad o statws ariannol y ceisydd, gan gynnwys datgeliad o'r cyllid sydd ar gael i ddiwallu costau amcangyfrifedig y gwaith; ac

(ch) pan fo'r cais yn cynnwys cais am orchymyn yn terfynu les a ddelir oddi wrth y ceisydd neu les ddeilliannol, copi o'r les honno.

(3) Yr ymatebwyr penodedig yw—

(a) y person sydd â hawl i feddiannu'r fangre;

(b) perchennog y fangre(**2**).

(**1**) Diwygiwyd adran 318 o Ddeddf 1985 gan adran 48 o Ddeddf 2004.

(**2**) *Gweler* adran 322 o Ddeddf 1985, sy'n diffinio "owner" mewn perthynas â mangre.